Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Traciwr Defnyddwyr Twristiaeth y DU: adroddiad proffil Cymru 2024: Gwanwyn a Haf 2024

(Gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr)

# Cyflwyniad



# Cyflwyniad

Mae VisitEngland, VisitScotland a Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru) wedi comisiynu arolwg olrhain teimladau defnyddwyr i ddeall bwriad domestig i gymryd gwyliau byr dros nos a gwyliau yn y DU a thramor, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhwystrau a'r pryderon presennol ynghylch teithio a sut y bydd y rhain yn esblygu dros amser.

Mae'r arolwg yn mynd i'r afael â'r canlynol: tebygolrwydd preswylwyr y DU o deithio; pryd a ble maent yn bwriadu mynd; manylion tripiau penodol megis y math o lety a'r gweithgareddau a wneir a'r math o sicrwydd y maent yn ei geisio gan y sector.

Mae'r traciwr yn seiliedig ar sampl cynrychioliadol y DU o 1,500 o oedolion 16+ oed gyda hwb i drigolion o Gymru a'r Alban ddarparu samplau wythnosol cadarn. Mae'r arolwg wedi'i gynnal ers 18 Mai 2020.

**Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata o fis Rhagfyr 2023 ac Ionawr 2024**. Mae hyn yn seiliedig ar waith maes sy'n digwydd ar y dyddiadau canlynol:

- **Ton mis Rhagfyr: 1af i 8fed Rhagfyr**
- **Ton mis Ionawr: 2ail Ionawr i 8fed Ionawr**

Lle bo'n berthnasol, caiff canlyniadau eu cymharu ag ymchwil cynharach a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod cyfatebol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diffiniadau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn (1)

Yn yr adroddiad hwn rydym yn edrych ar broffiliau ac agweddau nifer o wahanol gynulleidfaoedd:

Mae'r diffiniadau a ddefnyddir yn cynnwys:

- **Bwriadwyr y Gwanwyn**: Aelodau o'r cyhoedd sy'n datgan bod eu gwyliau neu wyliau byr *nesaf* yn y DU rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024.
- **Bwriadwyr yr Haf**: Aelodau o'r cyhoedd sy'n datgan bod eu gwyliau neu wyliau byr *nesaf* yn y DU rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024.

Oherwydd meintiau sampl isel, mae'r rhan fwyaf o ddata sy'n benodol i Gymru yn cael ei gyfuno yn y Gwanwyn a'r Haf. Mae'r tabl isod yn amlinellu meintiau sampl y prif gynulleidfaoedd a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn.

| Cynulleidfa | Maint Sampl |
|---|---|
| Preswylwyr y DU | 3,518 |
| Bwriadwyr y Gwanwyn yn y DU | 1,029 |
| Bwriadwyr yr Haf yn y DU | 699 |
| Bwriadwyr y Gwanwyn a'r Haf yng Nghymru | 196 |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

bva Bdrc

# Diffiniadau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn (2)

Er mwyn darparu proffiliau cliriach, rydym hefyd yn proffilio yn ôl cyfnod bywyd. Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddiben yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r canlynol:

- **Cyn-nythwyr**: 16-34 oed heb blant yn y cartref
- **Teuluoedd**: 16-64 oed gyda phlant yn y cartref
- **Annibynwyr hŷn**: 35-64 oed heb unrhyw blant yn y cartref
- **Ymddeolwyr**: 65+ oed

Sylwch nad yw pobl sy'n mynd ar dripiau bob amser yn teithio o fewn eu cyfnod bywyd – er enghraifft, gall 'teuluoedd' deithio heb eu plant. Fodd bynnag, trwy ehangu mae cyfansoddiad cyfnod bywyd yn yrrwr dibynadwy i'w hymddygiad.

Er hwylustod, defnyddir y diffiniadau llety a ganlyn:

- **Llety â gwasanaeth**: Gwesty, Gwely a Brecwast, ffermdy neu fflat â gwasanaeth
- **Tŷ llety/Gwely a Brecwast/Ffermdy**
- **Hunanarlwyo masnachol**: Fflat/fflat gwyliau ar rent neu dŷ gwyliau wedi'i rentu neu mewn cartref preifat rhywun arall ar sail fasnachol (e.e. Airbnb)
- **Cartref preifat**: Ail gartref/cyfran gyfnodol neu gartref Ffrindiau/perthynas
- **Carafán/Gwersylla/Glampio**: Carafán deithiol neu fan gwersylla/cartref modur neu garafán sefydlog neu babell neu glampio/Arall
- **Llety arall**: Hostel neu fath arall o lety

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

bva Bdrc

# Canfyddiadau allweddol



# Canfyddiadau allweddol (1)

**Bwriadau tripiau domestig a thramor**

1. Mae'r dirwedd twristiaeth ddomestig yn gymharol gadarnhaol ar gyfer 2024 – mae'r bwriadau i gymryd gwyliau neu wyliau byr yn y Gwanwyn (mis Ebrill i fis Fehefin) a'r Haf (mis Gorffennaf i fis Medi) yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2023. Ymddengys bod rhwystrau ariannol yn dominyddu llai na blwyddyn yn ôl – mae'r gyfran o breswylwyr y DU sydd wedi'u 'taro'n galed' gan yr argyfwng costau byw, neu'n 'bod yn wyliadwrus ac yn ofalus', ill dau yn gostwng. Mae nifer yr achosion o doriadau ar dripiau Gwanwyn/Haf yn y DU a Chymru hefyd wedi gostwng ers 2023 – er enghraifft, mae'r gyfran sy'n dweud eu bod yn debygol o 'ddewis llety rhatach' yn gostwng o 42% yn 2023 i 32%.
2. Wedi dweud hynny, dylid trin bwriadau optimistaidd yn ofalus. Mae data a gasglwyd trwy gydol 2023 yn dangos nad yw bwriadau tripiau bob amser yn trosi i dripiau a gymerir. Er enghraifft, er bod 50% wedi cynllunio trip domestig dros nos rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023 (o gymharu â dim ond 39% yn 2022), dim ond 29% a aeth ar drip mewn gwirionedd (yn gymharol gyson â 2022). Canllaw ynghylch a yw tripiau arfaethedig yn debygol o droi'n dripiau gwirioneddol yw cyfran y tripiau arfaethedig sydd eisoes wedi'u harchebu. Yn nodedig, mae tripiau domestig Gwanwyn a Haf 2024 yn *llai tebygol* o fod wedi'u harchebu nag ar yr un adeg yn 2023, sy'n awgrymu efallai y byddwn yn parhau i weld y bwlch bwriad i 2024.
3. Mae pwynt rhybudd arall yn ymwneud â bwriadau tramor. Mae'r bwriad i fynd ar dripiau tramor hefyd wedi cynyddu ers 2023, ac ar gyfradd uwch na thripiau domestig. Mae tripiau tramor hefyd yn fwy tebygol o fod wedi'u harchebu eisoes, sy'n golygu os yw pobl yn dewis rhwng un trip domestig neu dramor, y gall trip dramor gael blaenoriaeth yn naturiol. Hefyd yn nodedig, er bod proffil cyfnod bywyd bwriadwyr tripiau domestig yn gyson â 2023, mae bwriadwyr tripiau tramor ar gyfer 2024 yn hŷn nag yn 2023. Gallai'r newid hwn hefyd fod yn fygythiad i deithio domestig – gydag Ymddeolwyr yn flaenorol yn canolbwyntio eu bwriadau ar dripiau o fewn y DU, bellach yn ehangu eu dewisiadau.

**Bwriadau tripiau i Gymru**

1. Mae bwriadau tripiau i Gymru yn cyd-fynd yn fras â 2023 – Cymru yw'r 5ed rhanbarth mwyaf poblogaidd yn y DU yn y Gwanwyn a'r Haf. Fodd bynnag, mae cyfansoddiad y sawl sy'n cymryd tripiau i Gymru yn ymddangos yn wahanol i 2023. Yn 2024, mae Bwriadwyr i Gymru yn fwy tebygol o fod yn deuluoedd ac o'r tu allan i Gymru – mae'r gyfran o breswylwyr Cymru sy'n bwriadu trip dros nos yno wedi gostwng.
2. Yn gyson â 2023 a blynyddoedd blaenorol, mae gan fwriadwyr dros nos i Gymru fodd ariannol mwy cyfyngedig na bwriadwyr i gyrchfannau eraill yn y DU – Cymru yn denu'r ail gyfran uwch o ymwelwyr a gafodd eu 'taro'n galed' neu sy'n 'bod yn wyliadwrus ac yn ofalus' o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Fodd bynnag, mae Bwriadwyr i Gymru yn cyd-fynd â bwriadwyr ehangach y DU gan eu bod yn llai tebygol o dorri'n ôl ar wariant tripiau nag yn 2023.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau allweddol (2)

3. Fel yn 2023, mae Bwriadwyr y Gwanwyn/Haf 2024 yng Nghymru yn fwyaf tebygol o gael eu hysgogi gan drip i Gymru ‘i ddianc rhag y cyfan a chael seibiant’ ac ‘amser teuluol gyda fy mhartner’. Yn nodedig, mae’r cymhelliant ‘i gysylltu â natur/bod yn yr awyr agored’ ymhlith Bwriadwyr i Gymru wedi cynyddu ers 2023 (cynnydd nad yw wedi digwydd ar draws y DU).
4. Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd a fwriedir ar gyfer bwriadwyr y Gwanwyn/Haf i Gymru yw ‘cerdded, heicio neu grwydro’, ‘rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol’ ac ‘ymweld â safleoedd treftadaeth’ – mae’r ddau olaf yn cynyddu ers 2023 (ac nid yn cynyddu ar draws y DU). Adroddir cynnydd hefyd mewn ‘archwilio ardaloedd golygfaol mewn car’, ‘gweithgareddau antur’ a ‘chwaraeon dŵr’.
5. Mae bwriadwyr tripiau i Gymru yn fwyaf tebygol o ragweld eu trip dros nos mewn 'tref glan môr traddodiadol' neu 'gefn gwlad neu bentref', y ddau yn uwch nag yn 2023. Mae 'Arfordir Gwledig' a 'mynyddoedd neu fryniau' hefyd yn boblogaidd - mae'r olaf yn uwch nag ar draws y DU. Mae’r bwriad i fynd ar drip i ‘ddinas neu dref fawr’ yn is nag yn 2023, ac yn llawer is nag ar draws y DU.
6. Yn gyson ag adroddiadau blaenorol, Eryri yw'r prif gyrchfan arfaethedig ar gyfer trip dros nos yng Nghymru y Gwanwyn/Haf hwn, ac yna Llandudno a Bae Colwyn yng Ngogledd Cymru (sydd wedi cynyddu mewn poblogrwydd). Mae amrywiaeth o gyrchfannau eraill hefyd yn boblogaidd gyda chynnydd yn y diddordeb yng Nghaerdydd a Bae Abertawe.
7. Yn gyson â 2023, mae bwriadwyr tripiau Gwanwyn/Haf yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn cynllunio trip hirach o 4+ noson na gwyliau byr. Mae hyn yn wahaniaeth bach i holl dripiau yn y DU, sy’n fwy cytbwys tuag at wyliau byrrach, wedi’u hysgogi gan ddiddordeb uwch mewn gwyliau dinas. Yn nodedig, disgwylir i dripiau yn y DU fod yn fyrrach nag yn 2023 – sifft nad yw wedi digwydd ar gyfer tripiau i Gymru. Efallai bod cydnerthedd cymharol Cymru o ran hyd tripiau wedi’i ysgogi gan ganfyddiadau fel cyrchfan gwerth da.
8. ‘Llety â gwasanaeth’ yw’r math mwyaf tebygol o lety ar gyfer trip i Gymru y Gwanwyn/Haf hwn, ac yna ‘carafán/gwersylla’ a ‘rhentu eiddo masnachol’. Mae ‘carafán/gwersylla’ yn arbennig o boblogaidd yn ystod misoedd yr haf.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bwriadau tripiau domestig a thramor



# Bwriadau trip domestig tri mis, archebion a thripiau a gymerwyd

- Mae bwriadau tripiau domestig dros nos wedi cynyddu'n raddol ers dechrau 2021. Ar gyfer pob cyfnod o dri mis yn y 12 mis diwethaf, mae bwriadau fel arfer wedi bod yn uwch na'r cyfnod cyfatebol y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, nid yw'r tripiau *a gymerwyd* wedi dilyn y patrwm hwn, gan barhau'n gymharol gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn - yn enwedig yn ystod y tymor brig. Mae hyn yn dangos bod 'bwlch bwriad' ar hyn o bryd (y gwahaniaeth rhwng bwriadau a thripiau), sy'n arbennig o uchel yn yr haf. Mae'r bwlch bwriad yn cael ei yrru gan grwpiau oedran iau - Ymddeolwyr sydd fwyaf tebygol o fwrw ymlaen â bwriadau tripiau.

**Ffigur 1. Tripiau dros nos yn y DU a gynlluniwyd/archebwyd/gymerwyd mewn cyfnodau o 3 mis, Canran, ton wrth don, y DU**




CVB2a. Gan feddwl am eich gwyliau neu wyliau byr nesaf i'r DU, pryd ydych chi'n debygol o fynd ar y trip hwnnw? CVB2b. A phryd arall ydych chi'n rhagweld mynd ar wyliau neu wyliau byr yn y DU? Cwestiwn: CVB13a2. Ym mha rai o'r misoedd hyn ydych chi wedi cymryd gwyliau byr dros nos neu wyliau yn y DU yn ystod y 12 mis diwethaf? VB2enew: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor agos ydych chi at archebu eich trip dros nos nesaf yn y DU? Sylfaen: Yr holl Ymatebwyr: n=c.1,750 ar gyfer pob ton

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhesymau dros beidio â mynd ar drip domestig dros nos yn ystod y 12 mis diwethaf

- Y prif resymau dros beidio â mynd ar drip haf domestig yn ystod y 12 mis diwethaf oedd rhai ariannol, sy'n awgrymu bod yr argyfwng costau byw wedi cael rhywfaint o ddylanwad ar drawsnewid tripiau. Roedd atyniad teithio dramor a salwch hefyd yn ffactorau. Roedd cyllid yn brif reswm dros bob cam bywyd, er mai dyma oedd y lleiaf tebygol o fod yn wir ymhlith Ymddeolwyr.
- Roedd rhesymau eraill yn amrywio yn ôl cyfnod bywyd, yn arbennig gyda Chyn-nythwyr a Theuluoedd yn fwy tebygol o ddyfynnu ‘Doedd gen i ddim amser/dim gwyliau blynyddol’ ac Ymddeolwyr yn mynegeio’n uwch ar ‘salwch’.

**Ffigur 2. Rhesymau dros beidio â mynd ar drip dros nos yn y DU yn ystod y 12 mis diwethaf, Canran y rhai nad ydynt yn mynd ar drip yn ystod yr haf yn y DU a oedd yn ystyried trip yn wreiddiol**




Llywodraeth Cymru Welsh Government

bva Bdrc

VB13b. Pam nad ydych wedi cymryd gwyliau byr dros nos neu wyliau yn y DU yn ystod y 12 mis diwethaf?
Sylfaen: n=604

# Bwriadau tripiau dros nos yn y DU a thramor

- Wrth edrych ymlaen, mae 2 o bob 5 (42%) o'r cyhoedd yn y DU yn bwriadu mynd ar drip domestig dros nos rhwng mis Ebrill a mis Mehefin (Gwanwyn) eleni, gan godi i bron i hanner (47%) rhwng mis Gorffennaf a mis Medi (Haf). Mae bwriadau wedi cynyddu ar gyfer y ddau gyfnod o gymharu â 2023, er mai ychydig felly yw'r bwriadau yn yr Haf.
- Mae tua 1 o bob 4 yn cynllunio trip Gwanwyn dramor, gan godi i 2 o bob 5 yn yr Haf. Fel gyda thripiau domestig, mae bwriadau tramor wedi codi ers 2023 er yn nodedig, mae bwriadau tramor yn yr Haf wedi codi ar gyfradd uwch na thripiau domestig yn yr un cyfnod.

**Ffigur 3. Cyfran sy'n rhagweld mynd ar unrhyw dripiau i'r DU dros nos, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU a Chymru**




**Ffigur 4. Cyfran sy'n rhagweld mynd ar unrhyw dripiau TRAMOR dros nos, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU a Chymru**




VB2a/cc. Gan feddwl am y gwyliau i'r DU/tramor nesaf neu wyliau byr rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwnnw? VB2b/d. A phryd arall ydych chi'n rhagweld mynd ar wyliau neu wyliau byr yn y DU/tramor?
Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU n=3,518

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Demograffeg bwriadwyr tripiau i'r DU a thramor yn ôl cyfnod

- Mae proffil cyfnod bywyd bwriadwyr y Gwanwyn a'r Haf i'r DU yn 2024 bron yn union yr un fath â phroffiliau yn 2023. I'r gwrthwyneb, mae bwriadwyr tripiau tramor yn fwy tebygol o fod yn Ymddeolwyr o fewn y ddau gyfnod. Mae hyn yn awgrymu bod Ymddeolwyr yn dod yn fwyfwy cyfforddus â gweithgareddau y gwnaethant lai ohonynt yn ystod ac yn syth ar ôl y pandemig.

**Ffigur 5. Dadansoddiad o'r boblogaeth a bwriadwyr i'r DU yn ôl cyfnod bywyd, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




**Ffigur 6. Dadansoddiad o'r boblogaeth a bwriadwyr TRAMOR yn ôl cyfnod bywyd, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




Ffynhonnell: Cwestiynau demograffig.
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr. Poblogaeth y DU n=3,518; Bwriadwyr i'r DU Ebrill i Mehefin 2023 n=1,200; Bwriadwyr i'r DU Ebrill i Mehefin 2024 n=1,460; Bwriadwyr i'r DU Gorffennaf i Medi 2023 n=1,503; Bwriadwyr i'r DU Gorffennaf i Medi 2024 n=1,637; Bwriadwyr tramor Ebrill i Mehefin 2023 n=765 Bwriadwyr tramor Ebrill i Mehefin 2024 n=895; Bwriadwyr tramor Gorffennaf i Medi 2023 n=1,003; Bwriadwyr tramor Gorffennaf i Medi 2024 n=1,262

Llywodraeth Cymru Welsh Government

bva Bdrc

# Statws archebu tripiau ar gyfer tripiau arfaethedig yn y DU a thramor

- Ym mis Ionawr 2024, dim ond lleiafrif o fwriadwyr tripiau yn ystod y Gwanwyn a'r Haf yn y DU sydd eisoes wedi archebu eu tripiau domestig. Yn fwyaf nodedig efallai, mae'r gyfran sydd wedi archebu eu tripiau yn is na'r cyfnod cyfatebol yn 2023, sy'n awgrymu nid yn unig ei bod yn debygol y bydd y bwlch bwriad yn parhau eleni, ond y gallai fod hyd yn oed yn fwy.
- Hefyd, yn nodedig, mae tripiau tramor arfaethedig yn ystod y Gwanwyn/Haf yn fwy tebygol o fod wedi'u 'harchebu eisoes' na thripiau domestig dros nos yn yr un cyfnod, sy'n awgrymu, o ystyried y dewis rhwng y ddau, fod tripiau domestig yn fwy tebygol o gael eu haberthu.

**Ffigur 7. Statws archebu trip dros nos i'r DU, Canran, gwaith maes mis Ionawr, y DU**




**Ffigur 8. Statws archebu trip dros nos TRAMOR, Canran, gwaith maes mis Ionawr, y DU**




VB2e/g. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pa mor agos ydych chi at archebu eich trip dros nos nesaf yn y DU/TRAMOR yn <NODWCH Y MIS O VB2a(III)>? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr. Poblogaeth y DU n=3,518; Bwriadwyr i'r DU Ebrill i Mehefin 2023 n=504; Bwriadwyr i'r DU Ebrill i Mehefin 2024 n=555; Bwriadwyr i'r DU Gorffennaf i Medi 2023 n=394; Bwriadwyr i'r DU Gorffennaf i Medi 2024 n=410; Bwriadwyr tramor Ebrill i Mehefin 2023 n=307; Bwriadwyr tramor Ebrill i Mehefin 2024 n=364; Bwriadwyr tramor Gorffennaf i Medi 2023 n=491; Bwriadwyr tramor Gorffennaf i Medi 2024 n=427

Llywodraeth Cymru Welsh Government

bva Bdrc

# Ble y bwriedir aros ar y trip nesaf i'r DU

- Yn gyson â 2023 (a blynyddoedd blaenorol), De-orllewin Lloegr yw'r gyrchfan a ffafrir fwyaf yn y DU ar gyfer tripiau yn ystod y Gwanwyn eleni, er ei bod yn llai ffafriol nag yn 2023. Dilynir De-orllewin Lloegr gan yr Alban, Llundain, a Gogledd Gorllewin Lloegr. Mae tua 1 o bob 11 (9%) yn bwriadu mynd ar eu trip Gwanwyn i Gymru – yn gyson i raddau helaeth â 2023.

**Ffigur 9. Ble y bwriedir aros ar drip dros nos nesaf i'r DU o fis Ebrill i fis Mehefin 2024, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, Cyfran o Fwriadwyr i'r DU**




CVB4a. Ble yn y DU ydych chi'n debygol o aros ar y trip nesaf hwn ymhen <NODWCH Y MIS O VB2(III)>?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Bwriadwyr 2023 n=958; Bwriadwyr 2024 n=1,029

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ble y bwriedir aros ar y trip nesaf i’r DU

- De-orllewin Lloegr hefyd yw'r gyrchfan a ffafrir fwyaf ar gyfer trip Haf, er unwaith eto mae'r dewis ar gyfer y rhanbarth wedi gostwng ers 2023. Fel yn y Gwanwyn, Llundain a'r Alban yw’r 3 uchaf arall. Hefyd, fel yn y Gwanwyn, Cymru yw'r 5ed cyrchfan mwyaf dewisol, 11% o'r bwriadwyr yn cynllunio trip yno.

**Ffigur 10. Ble y bwriedir aros ar drip dros nos nesaf i’r DU o fis Gorffennaf i fis Medi 2024, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, Cyfran o Fwriadwyr i’r DU**




CVB4a. Ble yn y DU ydych chi'n debygol o aros ar y trip nesaf hwn yn <NODWCH Y MIS O VB2(III)>?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr rhwng mis Gorffennaf a mis Medi. Bwriadwyr 2023 n=715; Bwriadwyr 2024 n=699.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bwriadau a phroffiliau tripiau Gwanwyn/Haf yng Nghymru 2024



# Cyfnod bywyd Bwriadwyr i Gymru

- Mae bron i hanner (47%) bwriadwyr y Gwanwyn a'r Haf i Gymru yn perthyn i'r cyfnod bywyd Teuluoedd (cynnydd o gymharu â 2023), gydag 1 o bob 4 yn Annibynwyr hŷn ac 1 o bob 7 yn Ymddeolwyr.

**Ffigur 11. Dadansoddiad o'r boblogaeth a bwriadwyr yn ôl cyfnod bywyd, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




Ffynhonnell: Demograffeg

Sylfaen: Poblogaeth y DU n=3,518; Bwriadwyr i Gymru Ebrill-Medi 2023 n=201; Bwriadwyr i Gymru Ebrill-Medi 2024 n=196

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Demograffeg bwriadwyr ar draws cyrchfannau

- Mae proffil cyfnod bywyd Bwriadwyr i Gymru y Gwanwyn/Haf hwn yn weddol debyg i gyrchfannau eraill yn y DU – y cyfnod bywyd Teuluoedd sy'n tra-arglwyddiaethu.

**Ffigur 12. Dadansoddiad o fwriadwyr cyrchfan Gwanwyn/Haf yn ôl cyfnod bywyd, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




Ffynhonnell: Demograffeg.
Sylfaen: Cymru n=196; De-orllewin Lloegr n=288; Yr Alban n=271; Llundain n=236; Gogledd-orllewin Lloegr n=177; De-ddwyrain Lloegr n=118; Swydd Efrog a Humber n=154; Dwyrain Lloegr n=151; Dwyrain Canolbarth Lloegr n=85; Gogledd-ddwyrain Lloegr n=81; Gorllewin Canolbarth Lloegr n=84; Gogledd Iwerddon n=36.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

bva Bdrc

# Demograffeg a tharddiad Bwriadwyr i Gymru

- Mae Bwriadwyr y Gwanwyn/Haf i Gymru fwyaf tebygol o fyw yng Ngogledd-orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Chymru ei hun, gyda Llundain a De-ddwyrain Lloegr yn agos ar ei hôl hi. Yn nodedig, mae cyfran bwriadwyr i Gymru sy'n byw yng Nghymru wedi gostwng ers 2023, sy'n awgrymu bod preswylwyr o Gymru yn teithio ymhellach i ffwrdd.

**Ffigur 13. Dadansoddiad o'r boblogaeth a bwriadwyr yn ôl rhanbarth preswylio, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




Ffynhonnell: Demograffeg. Sylfaen: Bwriadwyr i Gymru Ebrill-Medi 2023 n=201; Bwriadwyr i Gymru Ebrill-Medi 2024 n=196

# Effaith argyfwng costau byw ymhlith Bwriadwyr i Gymru

- Mae’n nodedig bod bwriadwyr y Gwanwyn/Haf i Gymru yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn cael eu taro’n waeth gan yr argyfwng costau byw na phoblogaeth ehangach y DU. Mae’n nodedig hefyd bod y gyfradd y mae Bwriadwyr i Gymru yn adfer o’r argyfwng costau byw yn arafach na’r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 14. Effaith yr argyfwng costau byw ar gyllid ymhlith y boblogaeth a bwriadwyr, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




C17. Mae llawer o sôn wedi bod am sut mae’r ‘argyfwng costau byw’ wedi effeithio ar amgylchiadau ariannol pobl. Pe bai'n rhaid dewis, pa UN o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio orau eich teimladau am eich sefyllfa eich hun, ar hyn o bryd?
Sylfaen: Poblogaeth y DU 2023 n=3,518; 2024 n=3518; Bwriadwyr i Gymru Ebrill-Medi 2023 n=201; Bwriadwyr i Gymru Ebrill-Medi 2024 n=196

Llywodraeth Cymru Welsh Government

bva Bdrc

# Effaith argyfwng costau byw ar fwriadwyr ar draws cyrchfannau

- Mae Cymru ar fin denu un o'r cyfrannau uchaf o fwriadwyr sydd wedi cael eu 'taro'n galed' gan yr argyfwng costau byw (dim ond Dwyrain Canolbarth Lloegr yn uwch) a'r ail isaf ar y cyd 'heb eu heffeithio' neu'n 'well eu byd' (dim ond De-orllewin Lloegr sy'n is). Mae hyn yn awgrymu bod Cymru'n cael ei gweld fel cyrchfan sy'n addas ar gyfer ymwelydd cymharol lai cefnog.

**Ffigur 15. Effaith yr argyfwng costau byw ar gyllid fesul cyrchfan ymhlith bwriadwyr y Gwanwyn/Haf, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




C17. Mae llawer o sôn wedi bod am sut mae'r 'argyfwng costau byw' wedi effeithio ar amgylchiadau ariannol pobl. Pe bai'n rhaid dewis, pa UN o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio orau eich teimladau am eich sefyllfa eich hun, ar hyn o bryd? Sylfaen: Cymru n=196; De-orllewin Lloegr n=288; Yr Alban n=271; Llundain n=236; Gogledd-orllewin Lloegr n=177; De-ddwyrain Lloegr n=118; Swydd Efrog a Humber n=154; Dwyrain Lloegr n=151; Dwyrain Canolbarth Lloegr n=85; Gogledd-ddwyrain Lloegr n=81; Gorllewin Canolbarth Lloegr n=84; Gogledd Iwerddon n=36

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

bva Bdrc

# Effaith costau byw ar dripiau dros nos yn y DU

- Er gwaethaf arwyddion cyfyngedig bod Bwriadwyr i Gymru yn symud ymlaen o bryderon costau byw, maent yn llai tebygol o ragweld ‘torri’n ôl’ yn ystod eu trip nag yn 2023. Er enghraifft, mae 36% yn bwriadu gwario llai ar fwyta allan yn 2024, o gymharu â 42% yn 2023. Mae 32% yn bwriadu dewis llety rhatach, o gymharu â 42% yn 2023.

**Ffigur 16. Effaith ‘costau byw’ ar wyliau a gwyliau byr yng Nghymru a’r DU, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU, y 10 Uchaf**




VB7iii. Sut, os o gwbl, fyddech chi’n dweud bod yr ‘argyfwng costau byw’ yn debygol o ddylanwadu ar eich gwyliau byr neu wyliau yn y DU yn ystod y chwe mis nesaf?

Sylfaen: Bwriadwyr i Gymru Ebrill-Medi 2023 n=201; Bwriadwyr i Gymru Ebrill-Medi 2024 n=196; Bwriadwyr i’r DU n=1,728

Llywodraeth Cymru Welsh Government

bva Bdrc

# Effaith costau byw ar dripiau dydd

- Mae preswylwyr o Gymru hefyd yn llai tebygol o ragweld cwtogi ar wariant ar dripiau dydd yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Yn benodol, mae gostyngiad nodedig yn y rhai sy'n edrych i gymryd ychydig o dripiau dydd ac i chwilio am fwy o bethau am ddim i'w gwneud.

**Ffigur 16b. Effaith 'Costau byw' ar Gymru a thripiau dydd, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




VB7Cii. Sut, os o gwbl, fyddech chi'n dweud bod yr 'argyfwng costau byw' yn debygol o ddylanwadu ar eich tripiau dydd yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf?
Sylfaen: Preswylwyr o Gymru 2023 n=417; Preswylwyr o Gymru 2024 n=386; Preswylwyr y DU 2023 n=486

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymddygiad a phroffiliau tripiau Gwanwyn/Haf yng Nghymru 2024



# Pwrpas(au) gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU

- Fel yn 2023, mae bwriadwyr y Gwanwyn/Haf yng Nghymru 2023 yn fwyaf tebygol o gael eu hysgogi gan drip yng Nghymru ‘i ddianc rhag y cyfan a chael seibiant’ ac ‘amser teuluol neu amser gyda fy mhartner’. Yn nodedig, mae’r cymhelliant ‘i gysylltu â natur/bod yn yr awyr agored’ ymhlith bwriadwyr Cymru wedi cynyddu ers 2023 (cynnydd nad yw wedi digwydd ledled y DU).

**Ffigur 17. Cymhellion ar gyfer gwyliau a gwyliau byr yng Nghymru a’r DU yn y Gwanwyn/Haf, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU, 10 Uchaf**




Cwestiwn: VB6fii. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich cymhellion ar gyfer y trip hwn?
Sylfaen: Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2023 n=133; Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2024 n=146; Bwriadwyr i’r DU Gwanwyn/Haf 2024 n=1,728.

# Pwrpas(au) trip ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU

- Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd a fwriedir ar gyfer bwriadwyr y Gwanwyn/Haf yng Nghymru yw ‘cerdded, heicio neu grwydro’, ‘rhoi cynnig ar fwyd a diod lleol’ ac ‘ymweld â safleoedd treftadaeth’ – mae’r ddau olaf yn cynyddu ers 2023 (ac nid yn cynyddu ar draws y DU). Adroddir cynnydd hefyd mewn ‘archwilio ardaloedd golygfaol mewn car’, ‘gweithgareddau antur’ a ‘chwaraeon dŵr’.

**Ffigur 18. Gweithgareddau ar wyliau a gwyliau byr yng Nghymru a’r DU yn y Gwanwyn/Haf, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU, y 10 Uchaf**




Cwestiwn: VB6fiii. Pa rai o'r gweithgareddau hyn, os o gwbl, ydych chi'n debygol o'u gwneud ar eich gwyliau byr nesaf yn y DU yn <NODWCH Y MIS O VB2A>? Sylfaen: Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2023 n=133; Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2024 n=146; Bwriadwyr i’r DU Gwanwyn/Haf 2024 n=1,728

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

bva Bdrc

# Math o gyrchfan ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru

- Mae bwriadwyr tripiau yng Nghymru yn fwyaf tebygol o ragweld eu trip dros nos mewn 'tref glan môr traddodiadol' neu 'gefn gwlad neu bentref', y ddau yn uwch nag yn 2023. Mae 'Arfordir Gwledig' a 'mynyddoedd neu fryniau' hefyd yn boblogaidd - mae'r olaf yn uwch nag ar draws y DU. Mae'r bwriad i fynd ar drip i 'ddinas neu dref fawr' yn is nag yn 2023, ac yn llawer is nag ar draws y DU.

**Ffigur 19. Prif fath o gyrchfan ar gyfer y trip nesaf yng Nghymru ym mis Ebrill a mis Medi, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




CVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfannau rydych chi'n debygol o aros ynddynt yn ystod eich trip yn y DU?
Sylfaen: Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2023 n=133; Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2024 n=146; Bwriadwyr i'r DU Gwanwyn/Haf 2024 n=1,728.

# Cyrchfan arfaethedig yng Nghymru ymhlith bwriadwyr i Gymru

- Yn gyson ag adroddiadau blaenorol, Eryri yw'r prif gyrchfan arfaethedig ar gyfer trip dros nos yng Nghymru y Gwanwyn/Haf hwn, ac yna Llandudno a Bae Colwyn yng Ngogledd Cymru (sydd wedi cynyddu mewn poblogrwydd). Mae amrywiaeth o gyrchfannau eraill hefyd yn boblogaidd gyda chynnydd yn y diddordeb i Gaerdydd a Bae Abertawe.

**Ffigur 20. Cyrchfan arfaethedig i Gymru ar gyfer y trip nesaf ym mis Ebrill a mis Medi, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




CVB4viii. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf hwn?
Sylfaen: Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2023 n=201; Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2024 n=196.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

bva Bdrc

# Pwrpas(au) y trip ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU

- Yn gyson â 2023, mae bwriadwyr tripiau Gwanwyn/Haf i Gymru yn fwy tebygol o fod yn cynllunio trip hirach o 4+ noson na gwyliau byr. Mae hyn yn wahaniaeth bach i holl dripiau yn y DU, sy'n fwy cytbwys tuag at wyliau byrrach, wedi'u hysgogi gan ddiddordeb uwch mewn gwyliau dinas. Yn nodedig, disgwylir i dripiau yn y DU fod yn fyrrach nag yn 2023 – sifft nad yw wedi digwydd ar gyfer tripiau i Gymru.

**Ffigurau 21. Hyd y trip nesaf i Gymru rhwng mis Ebrill a mis Medi, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




VB3. A yw'r trip nesaf hwn yn <NODWCH Y MIS O VB2A> debygol o fod yn wyliau byr (1-3 noson) neu'n wyliau (4+ noson)? VB6f. A pha un o'r canlynol sy'n disgrifio pwrpas(au) y trip hwn orau? Sylfaen: Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2023 n=133; Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2024 n=146; Bwriadwyr i'r DU Gwanwyn/Haf 2024 n=1,728.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

bva Bdrc

# Cyfansoddiad parti ymwelwyr ar gyfer gwyliau neu wyliau byr nesaf yng Nghymru

- Ymysg bwriadwyr i Gymru, ‘partner’ yw’r aelod parti sy’n dod gyda’r grŵp mwyaf cyffredin ar gyfer trip (61% yn uwch nag yn 2023), ac yna ‘plentyn, wyres neu oedolion ifanc â rhieni’ (ar 44%, sydd hefyd yn uwch nag yn 2023). Mae lleiafrif nodedig o fwriadwyr i Gymru hefyd yn debygol o deithio gyda ‘ffrindiau’ (17%) ac ‘aelodau eraill o’r teulu’ (12%).
- O gymharu â theithiau ehangach yn y DU, mae bwriadwyr i Gymru yn fwy tebygol o deithio gyda phlant.

**Ffigur 22. Cyfansoddiad parti ymwelwyr ar gyfer bwriadwyr i Gymru ym mis Ebrill a mis Medi, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




CVB4d. Gyda phwy ydych chi'n debygol o fod yn treulio'ch gwyliau?
Sylfaen: Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2023 n=133; Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2024 n=146; Bwriadwyr yn y DU Gwanwyn/Haf 2024 n=1,728.

# Math o lety ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru

- ‘Llety â gwasanaeth’ (gan gynnwys gwestai, llety gwely a brecwast, ffermdy a fflatiau â gwasanaeth) yw’r math mwyaf tebygol o lety ar gyfer trip i Gymru y Gwanwyn/Haf hwn, ac yna ‘carafán/gwersylla’ a ‘rhentu eiddo masnachol’. Mae ‘carafán/gwersylla’ yn arbennig o gyffredin yn ystod misoedd yr haf (52% rhwng mis Gorffennaf a mis Medi o gymharu â 34% rhwng mis Ebrill a mis Mehefin).
- Mae'r canrannau mawr yn nodi, gan nad yw'r rhan fwyaf o'r bwriadwyr wedi archebu eu trip eto, eu bod yn dal i ystyried opsiynau lluosog.

**Ffigur 23. Y dewis o lety ar gyfer y trip dros nos nesaf ar gyfer bwriadwyr i Gymru ym mis Ebrill a mis Medi, Canran net, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU, Categorïau cywasgedig**




CVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl aros ynddo yn ystod eich trip yn y DU yn <rhowch y mis>?
Sylfaen: Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2023 n=133; Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2024 n=146; Bwriadwyr yn y DU Gwanwyn/Haf 2024 n=1,728

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Math o lety ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Ngymru – y 10 Uchaf

- Y math o lety sengl mwyaf cyffredin a fwriedir ar gyfer tripiau o fis Ionawr i fis Mai yng Nghymru yw ‘carafán sefydlog – nad yw’n eiddo i chi’ bron ddwywaith yn fwy poblogaidd nag ar draws y DU. Mae mynegai tripiau i Gymru yn is na'r DU ehangach ar gyfer arosiadau mewn llety sy’n westy.

**Ffigur 24. Dewis llety ar gyfer y trip dros nos nesaf ar gyfer bwriadwyr i Gymru ym mis Ebrill a mis Medi, Canran net, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU, y 10 Uchaf**




CVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl aros ynddo yn ystod eich trip yn y DU yn <rhowch y mis>?
Sylfaen: Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2023 n=133; Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2024 n=146; Bwriadwyr yn y DU Gwanwyn/Haf 2024 n=1,728.

# Y prif ddull o deithio ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru

- Nid yw’n syndod o ystyried pa mor flaenllaw yw cyrchfannau gwledig, fod bwriadwyr i Gymru yn fwyaf tebygol o deithio i’w cyrchfan gan ddefnyddio eu car eu hunain – sef 73%, sy’n uwch nag ymhlith bwriadwyr yn y DU (58%). Trên yw'r ail ddull mwyaf cyffredin o deithio.

**Ffigur 25. Prif ddull trafnidiaeth ar gyfer bwriadwyr i Gymru yng Ngwanwyn/Haf 2024, Canran, gwaith maes mis Rhagfyr i fis Ionawr, y DU**




VB4c. Beth ydych chi'n rhagweld fydd y prif ddull o deithio i'ch cyrchfan gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU yn <NODWCH Y MIS O VB2A> ? Sylfaen: Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2023 n=133; Bwriadwyr i Gymru Gwanwyn/Haf 2024 n=146; Bwriadwyr yn y DU Gwanwyn/Haf 2024 n=1,728.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

bva Bdrc

# Methodoleg



# Methodoleg

Mae’r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar arolwg ar-lein misol a gynhaliwyd ymhlith sampl cynrychioliadol cenedlaethol o boblogaeth y DU.

Mae’r sampl yn gynrychioliadol o oedolion 16+ oed y DU yn ôl rhyw, oedran, rhanbarth llywodraeth a gradd gymdeithasol.

Yn y cam cyntaf, caiff sampl craidd cynrychioliadol cenedlaethol o 1,500 ei recriwtio a'i gyfweld. Yna caiff y sampl hwn ei ‘hybu’ yng Nghymru a’r Alban i sicrhau meintiau sylfaen digonol ar gyfer dadansoddi cenedl ar wahân. Yna caiff y data ei bwysoli i wneud y sampl yn gynrychioliadol o'r DU yn gyffredinol ac o fewn pob gwlad.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canlyniadau a gymerwyd o Donau 65-66 o'r Traciwr Teimladau Domestig.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government